



Annwyl Syr/Fadam,

Parthed: Gwasanaeth Cynllunio Cyngor Gwynedd a Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd (Gwynedd ac Ynys Môn)

Ymhellach i fy llythyr dyddiedig 30ain o Fawrth, 2020 ynglŷn â 'r uchod hoffwn eich diweddarau ymhellach ynghylch y ffordd mae'r Coronafeirws yn effeithio ar Wasanaeth Cynllunio Cyngor Gwynedd.

Yn dilyn datganiad Prif Weinidog y Deyrnas Unedig ar y 23ain o Fawrth, 2020 penderfynwyd nad oedd sicrhau presenoldeb yn y swyddfa na chynnal ymweliadau safle yn hanfodol am gyfnod dros dro. Ers y datganiad hwn mae Prif Weinidog Cymru wedi gwneud datganiadau pellach sy'n benodol ar gyfer Cymru ac yn ogystal mae arweiniad wedi ei dderbyn gan Gyfarwyddiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru yn gofyn i ymdrechion y Gwasanaeth Cynllunio ganolbwyntio ar faterion sy'n cyfrannu tuag at ymateb i'r Coronafeirws. Mae'r Gwasanaeth wedi bod yn rhoi blaenoriaeth brys i hynny er mwyn hwyluso datblygiadau dros dro ar gyfer gwasanaethau allweddol.

Ers y 23ain o Fawrth 2020, mae swyddogion y Gwasanaeth wedi bod yn gweithio o adref yn delio yn bennaf gyda cheisiadau cynllunio, ceisiadau am gyngor cyn cyflwyno cais, materion gorfodaeth ac ymholiadau oedd eisoes yn y system, cyn belled ag bod hynny wedi bod yn bosibl. O ganlyniad mae gallu'r Gwasanaeth Cynllunio i gofrestru ceisiadau newydd ac i wneud penderfyniadau ar geisiadau oedd wedi'u derbyn yn gymharol ddiweddar wedi bod yn gyfyngedig. Drwy gydol y cyfnod yma mae'r wybodaeth a gyflwynir i'r Gwasanaeth wedi bod yn cael ei fonitro gyda blaenoriaeth yn cael ei roi i faterion brys, megis materion sydd yn hwyluso gwasanaethau allweddol yn bennaf ac o bosib achosion gorfodaeth brys lle mae hynny'n ymarferol bosib ac yn angenrheidiol. 'Rydym yn parhau i annog pawb i gyflwyno gwybodaeth i'r Gwasanaeth yn electroneg ac yn cynnal cyfarfodydd rhithiol, er mwyn osgoi'r angen i swyddogion a defnyddwyr y Gwasanaeth, fynychu'r swyddfeydd lle nad yw hynny'n hanfodol.

Erbyn hyn, mae cyngor ac arweiniad hefyd wedi ei dderbyn gan Brif Gynllunydd Llywodraeth Cymru sydd yn amlinellu sut y gallwn weithredu er mwyn ceisio cynnal gwasanaeth cynllunio gweithredol yn ystod yr amser hwn. Yng nghyd destun ceisiadau cynllunio mae cyngor penodol am gynnal ymweliadau safle, hysbysiadau safle a threfniadau cyhoeddusrwydd eraill. Mae hefyd cydnabyddiaeth glir fod ymweliadau ac ati ond yn digwydd pan mae'n briodol i wneud hynny, ac lle y gallwn sicrhau ein bod yn diogelu iechyd pawb sy'n gysylltiedig â'n bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol sef Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020.



O ganlyniad mae'r Gwasanaeth wedi bod yn ystyried sut y gallwn ni ddechrau delio a gwneud penderfyniadau ar rhai o'r ceisiadau cynllunio (a cheisiadau cyn cyflwyno cais) sydd wedi'u derbyn ers y 23 o Fawrth, 2020. Yn unol ac arweiniad Prif Gynllunydd Llywodraeth Cymru, credir y gellir gweithredu ar rai ceisiadau a'u penderfynu yn ogystal ac ymateb i rai geisiadau cyn cyflwyno cais, tra hefyd yn sicrhau fod hynny yn cael ei wneud yn unol â chyfyngiadau'r Rheoliadau Coronafeirws. Mae hyn wrth gwrs yn ddibynnol ar amgylchiadau'r cais a'r gallu i weithredu yn ddiogel, ystyriaeth ac asesiad o unrhyw risgiau a bod trefniadau gwaith priodol mewn lle. Bydd y Gwasanaeth felly yn gweithredu ar y sail yma am rŵan.

Mae hyn yn golygu ar hyn o bryd na fyddem yn gallu delio gyda pob cais cynllunio, cais am gyngor cyn cyflwyno cais, ymholiad neu achos gorfodaeth oherwydd na allwn gynnal ymweliad safle neu gydymffurfio gyda gofynion hysbysebu neu gyhoeddusrwydd. O ganlyniad, mi fydd gallu y Gwasanaeth i ddelio gyda achosion unigol yn gwbl ddbynnol ar amgylchiadau unigryw yr achos hwnnw a'r gallu i weithredu yn ddiogel. Fodd bynnag, hyd yn oed os oes modd i ddelio gyda cheisiadau a'u penderfynu, dylech fod yn ymwybodol efallai na fydd hyn mor gyflym ag y dymunem, oherwydd amryw o gyfyngiadau gyda'n amgylchiadau gwaith cyfredol.

O safbwynt cyfarfodydd o'r Pwyllgor Cynllunio byddwch yn ymwybodol fod y Pwyllgor oedd i'w gynnal ar y 23ain o Fawrth, 2020 wedi ei ohirio yn ogystal â'r Pwyllgorau Cynllunio oedd i'w cynnal yn yr wythnosau wedi hynny. Mae trafodaethau'n mynd yn ei blaen ynglŷn â'r rheoliadau newydd ar gyfer cynnal Pwyllgorau rhithiol, ond nid oes dyddiad wedi ei benderfynu ar hyn o bryd ar gyfer cynnal y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio. Byddwn yn darparu diweddariad pan fydd newid yn y sefyllfa.

O safbwynt y Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd (Gwynedd ac Ynys Môn), gan nad yw hwn yn faes gwaith rheng flaen mae'r gwaith sydd yn ymwneud a'r Cynllun Datblygu Lleol er enghraifft y gwaith monitro, paratoi Adroddiad Monitro Blynyddol (2019-20), paratoi Adroddiad Argaeledd Tir ar gyfer Tai, paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol, dal yn mynd ei flaen ar hyn o bryd, gyda'r swyddogion i gyd yn gweithio o adref. Mae'r Gwasanaeth hefyd ar gael ar hyn o bryd i roi cyngor ar geisiadau cynllunio / ymholiadau i Wynedd (ddim yn cynnwys y Parc) ac Ynys Môn, ac i ymateb i ymholiadau cyffredinol eraill yn ymwneud a pholisi cynllunio. Mae rhai o agweddau'r gwaith lle bo angen ymweliadau safle ac eto yn unol ag arweiniad Prif Gynllunydd Llywodraeth Cymru o safbwynt ceisiadau cynllunio, credir fod achosion lle gellir gwneud hynny'n ddiogel yn y maes Polisi a byddwn yn ceisio gweithredu ar hynny gyda chydweithrediad Cyngor Sir Ynys Môn. Nodir fod cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd wedi gorfod cael ei ohirio yn sgil yr argyfwng ac nad oes sicrwydd o bryd fydd y nesaf yn cael ei gynnal, ond rydym yn cynnal trafodaethau yn fewnol a gyda Chyngor Sir Ynys Môn ynglŷn â hyn a rhoddir diweddariad pellach maes o law. Ni fydd posib cael penderfyniadau ar hyn o bryd ar waith y Gwasanaeth sydd yn ymwneud a'r Cynllun Datblygu Lleol, megis Canllawiau Cynllunio Atodol ac ati. Anogir unrhyw un sydd angen cyflwyno



gwybodaeth neu wneud ymholiad i wneud hynny'n electroneg yn unig ac mae'r Gwasanaeth hefyd yn cynnal cyfarfod rhithiol ar gyfer defnyddwyr lle bo angen.

Wrth reswm, mae hyn yn rhwystredig i chi ond prif flaenoriaeth y Cyngor ar hyn bryd yw gwarchod iechyd cyhoeddus a chynnal gwasanaethau hanfodol a dwi'n siŵr y byddwch yn deall a chefnogi'r rhesymeg yma. Mae posibilrwydd wrth gwrs y bydd angen i swyddogion o'r Gwasanaeth Cynllunio a'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd (ac o wasanaethau eraill) maes o law, gael eu cyfeirio at roi cefnogaeth i wasanaethau hanfodol y Cyngor sydd yn delio yn fwy penodol a materion iechyd cyhoeddus.

Er mwyn ymateb i unrhyw newid pellach yn sefyllfa'r argyfwng neu wybodaeth newydd byddwn yn adolygu'r sefyllfa cyn diwedd mis Mai eleni. Nodir yn dilyn trafodaethau gydag Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill eu bod hefyd yn gweithredu mewn ffordd debyg o dan yr amgylchiadau.

Yr ydym wir yn gwerthfawrogi eich dealltwriaeth, eich amynedd a'ch cydweithrediad yn ystod y cyfnod heriol hwn. Peidiwch ag oedi i gysylltu gyda'r Gwasanaeth Cynllunio yn y dulliau arferol pe baech angen trafod ymhellach neu os oes unrhyw beth yn aneglur. Gallwch wneud hynny drwy e-bostio Cynllunio@gwynedd.llyw.cymru neu drwy ffonio Galw Gwynedd ar 01766 771000.

Os am ym gysylltu gyda'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd yna gwnewch hynny drwy e-bostio PolisiCynllunio@gwynedd.llyw.cymru

Yn gywir,

Cynghorydd Gareth Wyn Griffith
Aelod Cabinet - Amgylchedd